



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes y Cyngor - Gwasanaethau Llywodraethol
(01443 424062)

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX** ar **DYDD IAU, 21AIN CHWFROR, 2019** am **5.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU NAD YDYN NHW'N AELODAU O'R PWYLLGOR AC AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 19 CHWFROR 2019, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

AGENDA

Tudalennau

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

Nodwch:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr eitem mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

4. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 10 Ionawr, 2019.

5 - 16

CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR GWASANAETH – MATERION CYNLLUNIO

5. CAIS RHIF: 18/0393

Adeiladu bloc o fflatiau sy'n cynnwys 9 fflat preswyl hunangynhwysol (amlinelliad) (derbyniwyd y cynlluniau diwygiedig, y ffurflen gais a'r disgrifiad ar 29/10/18), tir gyferbyn â 209 Heol Ystrad, Pentre.

17 - 28

6. CAIS RHIF: 18/0408

Cam 1 - Datblygiad sy'n cynnwys ymestyn Parc Busnes/Diwydiannol ar safle cae gwyrdd oddi ar safle Parc Busnes Llantrisant (cynlluniau/gwybodaeth ddiwygiedig a dderbyniwyd ar 15/08/18), tir yn Tal y Fedw, Parc Busnes Llantrisant, Pont-y-clun.

29 - 46

7. CAIS RHIF: 18/1182

Datblygiad Preswyl Arfaethedig, maes parcio a gwaith cysylltiedig. (derbyniwyd y cynlluniau a'r wybodaeth ddiwygiedig ar 30 Ionawr 2019), Ystad Ddiwydiannol Bryncae, Heol Pen-y-bont ar Ogwr, Bryncae, Llanharan.

47 - 66

8. CAIS RHIF: 18/1207

Manylion ynglŷn â threfn, cynlluniau tai, mynediad, tirwedd, deunyddiau, draenio a pharcio (42 o anheddau). Derbyniwyd y drefn ddiwygiedig ar 31 Ionawr 2019, tir ar ddiwedd Stryd Godreaman, Aberaman, Aberdâr.

67 - 78

9. CAIS RHIF: 18/1258

Dymchwel yr adeilad presennol a chodi 34 o unedau preswyl fforddiadwy, llwybr mynediad, maes parcio ceir, tirlunio a gwaith cysylltiedig, Adeiladau Heddfan RhCT, Rhodfa llan, Rhydfelen, Pontypridd.

79 - 96

10. CAIS RHIF: 18/1314

Amrywio Amod ynglŷn â'r dyluniad, manylion am drefn y ffordd, golau'r stryd, dŵr wyneb, draenio a strwythurau'r briffordd, tir ar ddiwedd Stryd Godreaman, Aberaman, Aberdâr.

97 - 108

11. CAIS RHIF: 18/1342

Addasiadau arfaethedig i'r ardal allanol, gan ychwanegu cyntedd newydd, drysau sy'n plygu, man eistedd allanol a disodli'r cyfarpar gwyntyllu, the Windsor, Ffordd Llantrisant, Pont-y-clun.

109 - 114

12. CAIS RHIF: 18/1375

Datblygiad i ddarparu 60 o fflatiau gofal ychwanegol gydag 1 neu 2 ystafell wely a chyfleusterau cymunedol ar gyfer pobl 50 oed neu hŷn, yn ogystal â mynedfeydd i gerbydau a cherddwyr, maes parcio, ardaloedd cysylltiedig, tirweddu, man storio gwastraff a beiciau, a datblygiadau cysylltiedig eraill, Hen Lysoedd yr Ynadon, Union Street, Y Graig, Pontypridd.

115 - 130

13. CAIS RHIF: 18/1396

Meithrinfa symudol, unllawr, Ysgol Fabanod Ynyswen. Heol Ynyswen, Ynyswen, Treherbert, Treorci.

131 - 136

CAIS WEDI'U GOHIRIO

14. CAIS RHIF: 18/0956

Dymchwel gweithdy/modurdy presennol ac adeiladu annedd sengl. 1 Stryd Rhiw'r Perrai, Llantrisant, Pont-y-clun, CF72 8EX.

137 - 148

ADRODDIAD ER GWYBODAETH

**15. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU
GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 14/01/2019 a 08/02/2019:

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd;

Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau;

Trosolwg o Achosion Gorfodi;

Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

149 - 168

16. BUSNES BRYS

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol

Cylchrediad:-

Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd S Powell,
Y Cynghorydd W Owen, Y Cynghorydd J Harries and Y Cynghorydd R Yeo

Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol
Cyfarwyddwr Uwchadran Adfywio, Cynllunio a Thai
Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio
Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cynllunio a'r Amgylchedd